Gellid cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg, ac ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn y Saesneg.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi ymrwmo i ddiogelu lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl i bob gweithiwr a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn.

Mae pob swydd yn agored i'w rhannu oni nodir yn wahanol.

Mae Cyngor Sir Fynwy :-

- yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau o bob adran o'r gymuned.
- yn gefnogwr anabledd hyderus, ymroddedig .
- yn gyflogwr cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog .
- yn ymwybodol o Awtistiaeth ac yn ymroddedig i symud unrhyw rwystrau i gyflogaeth
- yn ymrwymedig i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael ein gofal i gael mynediad i gyfleoedd newydd a magu profiad.



## PROFFIL Y RÔL

**TEITL Y RÔL:** **Technegydd Cerbydau Modur  
PARHAOL**

**RHIF ADNABOD Y SWYDD:** RTRMEC

**GRADD:** Band H SCP 27 – SCP 31 (£31,895 - £35,336 y flwyddyn)

**ORIAU:** 37 Awr yr Wythnos

**PATRWM GWAITH:** Amser llawn = 37 awr o ddydd Llun i ddydd Gwener dros y patrymau gwaith canlynol

Shifft 1- Llun-lau 7.00am-3.30pm. Egwyl y Bore-9.00am--9.15am. Gwener 7.00am - Gorffen 12.00pm

Shifft 2- Llun-lau 8.00am-4.00pm. Egwyl y Bore-10am-10.15am. Cinio- 12.30-1.00

Gwener 3.30pm Gorffen.

Shifft 3- Llun-lau 9.00am-5.00pm. Llun-lau 11.00am -11.15am. Cinio -1.00pm- 1.30pm.

Egwyl P'nawn- 3.00pm-3.15pm. Gwener 8.00am-3.30pm. Egwyl y Bore -9.00am--9.15. Cinio-12.00--12.30

**LLEOLIAD:** Depo Rhaglan ond bydd hyn o bosib angen newid yn y dyfodol os oes angen newid lleoliad y gwasanaeth. Ni fydd treuliau adleoli neu anghyfleustra yn cael eu talu os yw hyn yn digwydd.

### **GWIRIAD GAN Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD:**

Nid oes angen gwiriad gan y GDG ar gyfer y rôl

**YN ATEBOL I: Debbie Jackson, Rheolwr y Fflyd**

### **ASESIAD O'R GYMRAEG:**

Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

**Pwy ydym ni?** Gwasanaeth Trafnidiaeth y Fflyd, Mentergarwch

### **DIOGELU:**

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

**Ein Diben:** - Ein rôl yw darparu gwasanaethau rheoli fflyd a cherbydau ansawdd uchel, cost-effeithlon yn fasnachol a'n dibynadwy i'r holl ddefnyddwyr fflyd drwy:

Darparu gwasanaethau cefnogaeth allweddol o fewn y Cyngor, gwahanol sefydliadau allanol, awdurdodau lleol eraill a'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys darparu, trwsio, cynnal a chadw ac archwiliadau MOT fflyd o fwy na 450 o gerbydau ynghyd â chyfarpar ac offer arbenigol arall, yn cynnwys cerbydau casglu sbwriel, cerbydau graeanu cynnal a chadw'r gaeaf, cerbydau rheoli traffig, clustogau damwain, peiriannau gwagu geliau ac ysgubwyr stryd mecanyddol, pryd ar glud, cerbydau 4x4 a bysus mini, a gaiff ei wneud yn ein gweithdai fflyd mewnol ein hun yn Rhaglan a Chil-y-coed.

### **Pwrpas y Rôl hon:-**

- Paratoi cerbydau'n llawn ar gyfer profion MOT/platio blynyddol a mynd â'r cerbydau i'r orsaf brofi briodol.
- Profi cerbydau i safonau perthnasol MOT/LOLER.
- Rhoi adroddiad llafar ac ysgrifenedig ar gwblhau rhestrau gwirio archwilio diogelwch a chardiau swydd, cyflwr, ffitrwydd gweithredol ac addasrwydd ffordd cerbydau, offer a chyfarpar i'r Cydlynedd Cynnal a Chadw Fflyd a/neu ei ddirprwyon. Yn defnyddio'r system rheoli Fflyd er mwyn cwblhau a chynnal dogfennaeth gywrain gan gynnwys taflenni Arolygu Diogelwch Cerbydau a gwasanaeth.
- Yn cwblhau a chyflwyno bob amser y rhestrau gwirio archwilio diogelwch, cardiau swydd, archebion storfa, cofnodion presenoldeb, ceisiadau gwyliau neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill mewn modd clir, dilys a chywir.
- Sicrhau y caiff yr holl gerbydau, offer ac eitemau cyfarpar, unwaith y cafodd gwaith ei gwblhau, eu cloi, eu parcio a'u diogelu mewn modd priodol mewn baeau a hysbysu'r adrannau/cwmnïau perthnasol.
- Cynnal profion diagnosteg gwallau trydanol, cynnal a chadw a gwaith trwsio cerbydau fflyd yn defnyddio dulliau ac offer diagnostig priodol. Bydd y darnau o'r storfeydd yn cael eu recordio. Yna bydd angen profi'r cerbydau ar yr heolydd (ac unrhyw beiriannau) os ydych yn meddu ar y drwydded yrru briodol.
- Bydd disgwyl i chi ddefnyddio sgiliau crefft ar gyfer gwaith arbenigol.
- Wrth i'r fflyd symud i ddefnyddio cerbydau allyriadau isel iawn, bydd disgwyl i chi addasu i'r gweithdrefnau gweithio newydd er mwyn diwallu'r anghenion newidiol yma.
- Defnyddio eich gwybodaeth a'ch arbenigedd er mwyn nodi'r hyn sydd angen ei wneud pan yn gofalu am/atgyweirio cerbydau a pheiriannau.
- Creu perthynas waith sy'n bositif, yn fuddiol a'n effeithiol gyda holl ddefnyddwyr y gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill fel cwsmeriaid sy'n creu

incwm a chyflenwyr er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu i safon uchel o ran gofal cwsmer.

- Yn mynychu'r holl raglenni hyfforddi perthnasol fel sydd wedi ei nodi gan y rheolwr Trafnidiaeth/Gweithle.
- Yn chwarae rhan yn datblygu'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer yr holl faterion lechyd a Diogelwch sydd yn berthnasol yn y gweithdy cynnal a chadw cerbydau a'n gweithredu hyn yn yr amgylchedd gwaith ar y safle ac oddi ar y safle fel sydd angen.
- Yn dysgu am y newidiadau i ddeddfwriaeth a rheoliadau sydd yn ymwneud gyda cherbydau nwyddau trwm a diagnosis o ran diffygion, yn enwedig canllaw'r DVSA ar gyfer 'Cynnal Cerbydau fel eu bod yn Addas i'r Briffordd' a'n medru rhoi cyngor a gwybodaeth am y ddarpariaeth bresennol o ran cynnal a chadw cerbydau fel bod modd helpu llywio polisi a phractis gyda chydweithwyr o fewn y Gwasanaeth Fflyd.
- Paratoi cerbydau'r cwmni ar gyfer y profion blynyddol sydd angen, yn unol â'r safonau ac yn cyflwyno (ar ran yr Awdurdod) i'w profi gan orsaf brawf MOT DVSA lleol.
- Yn ymgymryd â'r holl waith cynnal a chadw, gofalu ac atgyweirio (foltedd uchel) ar y cerbydau trydan.
- Rhaid eich bod wedi eich hyfforddi hyd at Lefel 3 yn gweithio ar Gerbydau Trydan a Hybrid neu'n fodlon cwblhau'r hyfforddiant yma.
- Pan yn ymateb i argyfyngau y tu hwnt i oriau swyddfa arferol, bydd angen i chi fynd i sawl adeilad, depo ac adeiladau lle nad oes pobl eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel wrth fynd i mewn ac allan ohonynt.
- Byddwch yn gyfrifol am yr allweddi ar gyfer sawl cerbyd drudfawr a'n gorfod sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel.
- Byddwch yn gyfrifol am yr allweddi ar gyfer adeiladau a depos a'n gyfrifol am eu cadw'n ddiogel.
- Wrth gael eich galw i argyfyngau fel y Technegydd Cerbydau Modur, byddwch yn gweithio ar ben eich hun a'n gorfod cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau gweithio ar ben eich hun.
- Bydd angen gosod unrhyw declynnau trydanol ar ystod eang o gerbydau a pheiriannau.
- Profi ac atgyweirio systemau rheoli digidol gan gynnwys ABS.
- Yn cynnal profion MOT neu'n fodlon cwblhau cwrs ar gyfer y sawl sy'n cynnal profion MOT ar gyfer dosbarthiadau IV, V and IIV.

- Yn gwasanaethu, newid darnau ac offer ar gerbydau a pheiriannau, gan wneud defnydd o'r teclynnau a'r cyfarpar angenrheidiol mewn modd diogel a chywir.
- Yn cynorthwyo'r person yn y Storfa, pan fydd angen, i adnabod darnau sydd angen gan ddefnyddio'r catalogau perthnasol ayyb. Yn sicrhau bod unrhyw eitem hen yn cael ei ddychwelyd i'r storfa pan yn archebu un newydd er mwyn sicrhau credyd. Yn archebu rhannau gyda chyflenwyr os yw'r person sy'n gyfrifol am y storfa yn absennol.
- Os ceir rhannau o'r storfa yn absenoldeb ceidwad y storfa, a rhaid cadw cofnodion ysgrifenedig a hysbysu ceidwad y storfa cyn gynted ag sydd modd
- Pan fydd angen, casglu a dosbarthu cerbydau, rhannau sbâr o/i sefydliadau mewnol neu allanol.
- Byddwch yn ffocysu ar y cwsmer, yn gweithio'n adeiladol er mwyn sicrhau bod modd defnyddio cerbydau drwy'r amser.
- Cymryd cyfrifoldeb am iechyd, diogelwch a llesiant eich hun a chydweithwyr, gan sicrhau y cedwir pob ardal waith yn lân, heb arllwysiadau o'leu ar unrhyw amser

### **Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl hon:-**

- Disgwylir i chi sicrhau rhediad llyfn cerbydau drwy'r gweithdai ar gyfer gwasanaeth/MOT/gwaith trwsio.
- Disgwylir i chi drwsio/rhoi gwasanaeth/MOT mewn modd amserol.
- Dylai'r sawl sydd yn profi fod yn ymwybodol ei fod yn hynod bwysig i wirio unrhyw hysbysiadau a Hysbysiadau Arbennig ar yr hafan a'n sicrhau eu bod yn cael eu darllen.
- Fel profwr MOT, ni ddylech ddatgelu eich cyfrinair i unrhyw un.
- Bydd angen bod yn broffesiynol pan yn delio ag aelodau'r cyhoedd a'n cynnal profion MOT a'n gweithio ar eu cerbydau preifat.
- Yn chwarae rhan yn datblygu Aseidiadau Risg o ran y gweithdy Cynnal a Chadw Cerbydau a rôl y Technegydd Cerbydau Modur.
- Yn fedrus wrth ddefnyddio holl offer y gweithdy a'r cyfarpar diagnostig.
- Cymryd gofal rhesymol o holl offer y gweithdy, gan sicrhau y caiff eitemau eu defnyddio'n ddiogel, eu trin yn gywir a hysbysu'r Cydlynnydd Cynnal a Chadw Ffilyd a/neu ei ddirprwyon am unrhyw ddiffygion gydag offer.

- Sicrhau y cedwir eich gofod gwaith/amgylchedd gwaith eich hun yn lân a thaclus a'i gadw yn unol â'r safonau lechyd a Diogelwch.
- Sicrhau y caiff yr holl offer personol eu hyswiro a'u cynnal a chadw mewn cyflwr da a'u bod yn addas i wneud yr holl ddiben y'u bwriadwyd ar eu cyfer.
- Fel a phan fo angen, sicrhau y caiff gweithdai cerbydau/ storfeydd / cynwysyddion eu cloi'n ddiogel ar ddiwedd y diwrnod gwaith.
- Rhaid cysylltu mewn modd cwrtais gyda phob cwsmer a chyflenwr, yn fewnol ac allanol.
- Disgwylir i'r sawl a benodir fod yn fentor a chynorthwyo gyda hyfforddi Prentisiaid a/neu hyfforddeion lleoliad gwaith.
- Mynd i gynorthwyo pan fydd cerbydau wedi torri allan ar y ffordd.

### **Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:-**

Darparu profion MOT, cynnal a chadw, gwasanaethu a thrwsio'r holl gerbydau, offer a chyfarpar i gydymffurfio gyda safonau cyfredol y DVSA, gwneuthurwyr a safonau'r Gweithgor lechyd a Diogelwch gan sicrhau y cânt eu gwneud mewn modd amserol ac o'r safon uchaf, gan sicrhau ymagwedd iawn tro cyntaf.

Fel a phan fo angen, ateb y gofynion ar gyfer cynnal a chadw cerbydau, offer a chyfarpar a bod yn barod i weithio patrymau shifft ychwanegol.

Cymryd rhan wrth ddarparu gwasanaeth argyfwng torri cerbydau / galw allan 24 awr/365 dydd ar gyfer y fflyd.

Fel a phan wneir cais, gynnal arolygiadau diogelwch a/neu waith trwsio i gerbydau, offer a chyfarpar e.e. yn safleoedd y cwsmer/cleient.

### **Dyma'r hyn y mae modd i ni roi i chi:-**

- Y gefnogaeth rheoli a thîm angenrheidiol a'r hyfforddiant a chwrs anwytho priodol.
- Llwyth gwaith y mae modd ei reoli a goruchwyliaeth o ansawdd.
- Y cyfle i hyfforddi er mwyn datblygu eich sgiliau a'ch profiad yn broffesiynol a'n bersonol.
- Hyfforddiant parhaus ar gerbydau/cyfarpar/offer

**Beth arall sydd angen i chi wybod.....Ein Gwerthoedd:**

Caiff ein diben ei seilio ar ymdeimlad clir o bwy ydym fel sefydliad. Disgwyliwn i'r bobl sy'n gweithio gyda ni i rannu set gref o werthoedd a disgwyliwn y bydd y rhain yn amlwg yn y ffyrdd y gweithiwn ac yr ymgysylltwn gyda'n cymunedau.

**Gwaith tîm:** Byddwn yn gweithio gyda chi a'ch partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau glas o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.

**Tryloywder:** Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.

**Hyblygrwydd:** Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Tegwch:** Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.

**Caredigrwydd:** Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon bob rhyngweithio.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

### **Yn ychwanegol at hyn:**

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

## Manyleb Person

**Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-**

- O leiaf NVQ lefel 3 neu City & Guilds Rthannau 1 a 2 mewn Cynnal a Chadw/Trwsio Cerbydau Modur neu fedru dangos 3 blynedd o brofiad perthnasol
- Bod â thrwydded yrru car lawn gyfredol a'n meddu ar drwydded yrru dosbarth C LGV a thrwydded yrru dosbarth D1.
- Profiad o roi gwasanaeth, archwilio a thrwsio cerbydau LGV, ceir a faniau disel a phetrol, a'r holl eitemau eraill a fyddai fel arfer yn cael eu cynnwys ar ffylod cerbydau ac offer y Cyngor.
- Yn meddu ar Lefel 3, Atgyweirio a Disodli Systemau Trydan /Hybrid.
- Profiad o'r system pibell wagio ar ôl triniaeth gan gynnwys y ffilter Disel, sydd yn cynnwys gweithio gyda thymheredd uchel gan fod y broses hon yn llosgi'r carbon o'r bibell wagio a bydd angen cwblhau'r gwaith yma y tu allan i'r gweithdy yn sgil yr allyriadau carbon.
- Yn brofwr DVSA enwebedig. (Dosbarthiadau IV, V, VII)
- Y gallu i weithio'n effeithiol o dan bwysau ac o fewn terfynau amser.
- Bydd y rôl yn cynnwys gweithio yn yr awyr agored yn ystod tywydd garw.
- Sgiliau trefnu personol da.
- Ymroddiad at gwblhau unrhyw hyfforddiant sydd angen ar gyfer y rôl yn y dyfodol.
- Profiad o'r systemau AdBlue gyda phob math o gerbydau.
- Bydd angen gweithio ar uchder fel rhan o'r rôl ar fathau gwahanol o gerbydau (bydd 'fall-back arrestors' diogel yn cael eu defnyddio.)
- Profiad yn gosod telemateg ar gyfer cerbydau a'u tynnu oddi yno
- Profiad o beirannau cherbydau PCV.
- Rhaid medru defnyddio rampiau'r Garej, offer arbenigol, ac offer a theclynnau llaw.
- Dealltwriaeth o brofi / tystysgrif LOLER.
- Yn fethodolegol o ran cynnal diagnosis o ddiffygion

- Dealltwriaeth o nwy a weldio arc / MIG
- Dealltwriaeth o systemau hydrolog
- Yn medru nodi'r atgyweiriadau sydd angen yn syth a'r hyn sydd angen gwneud.
- Gallu dynodi'r rhannau sbâr cywir sydd eu hangen i drwsio cerbydau ac archebu fel bo angen
- Y gallu a'r cymhelliant i weithio heb arolygiaeth gyson
- Yn meddu ar gymhelliant uchel a chymryd rhan mewn sefydlu perfformiad targedau a chynyddu effeithiolrwydd y garej i'r eithaf
- Ymrwymiad i'ch datblygiad personol eich hun
- Gallu i ffurfio perthynas waith dda gydag aelodau tîm ac asiantaethau allanol
- Yn medru defnyddio cyfrifiaduron (gan y bydd angen defnyddio llechen ar gyfer y gwasanaeth/taflenni gwaith maes o law).

**Os ydych angen mwy o wybodaeth am y swydd hon, cysylltwch â: Debbie Jackson Rheolwr y Fflyd Ffôn: 01291 691315**

**Dyddiad Cau: 5.00pm ar 27/10/2022**





### FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG

#### LEFEL 1

*Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir.</li> <li>➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.</li> <li>➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr</li> <li>➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithwyr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hwn wedi galw.</li> </ul>

#### LEFEL 2

*Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio mater, cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol</li> <li>➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion.</li> <li>➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg.</li> <li>➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</li> <li>➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithwyr gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/i, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod</li> <li>➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost i drefnu apwyntiad</li> </ul>

#### LEFEL 3

*Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgwrsiau estynedig gyda siaradwyr rhywun am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyrllythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgwrsiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth;</li> </ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd.</li> </ul>	<p>dechnegol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</li> <li>➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol.</li> <li>➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn.</li> </ul>	<p>esboniad; disgrifio profiad neu sefydliad gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.</p>
--	--	--	--

#### LEFEL 4

*Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgwrsiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgwrsiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith.</li> <li>➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen.</li> <li>➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol.</li> <li>➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion.</li> <li>➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur.</li> <li>➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math adroddiadau byr, dogfennau a llenyddol gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg Cysgair, Cysill.</li> </ul>

#### LEFEL 5

*Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr.</li> <li>➤ Gall ddeall amwysedd a naws iaith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth</li> <li>➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol.</li> <li>➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnog offer cymorth iaith electronig.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol anffurfiol yn ôl yr angen.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau gywir ac yn hyderus.</li> </ul>



monmouthshire  
sir fynwy



monmouthshire  
sir fynwy